


# Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu ac Absenoldeb Rhiant a Rennir

Ebrill 2026

## Contents


Cyflwyniad ........ 2

A fyddaf dal i dalu cyfraniadau pensiwn ar y tâl rydw i'n ei dderbyn yn ystod Absenoldeb sy'n Gysylltiedig â Phlant? ........ 2

A yw bod ar Absenoldeb sy'n Gysylltiedig â Phlant yn effeithio ar fy muddion pensiwn? ........ 2

Cyfnodau Absenoldeb Cyffredin ac Ychwanegol ........ 2

Cyfnodau o Absenoldeb Di-dâl Ychwanegol ........ 2

Sut mae prynu pensiwn coll yn ôl? ........ 3

Beth os ydw i'n talu cyfraniadau ychwanegol? ........ 3

Beth am ddyddiau Cadw mewn Cysylltiad (CMC)? ........ 4

Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth? ........ 4

Ymwadiad ........ 4

## Cyflwyniad

Mae'r ffeithlen hon yn egluro sut mae eich buddion pensiwn o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yn cael eu heffeithio gan Absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu ac Absenoldeb Rhiant a Rennir (cyfeirir atynt yn y ffeithlen hon fel Absenoldeb sy'n Gysylltiedig â Phlant).

## A fyddaf dal i dalu cyfraniadau pensiwn ar y tâl rydw i'n ei dderbyn yn ystod Absenoldeb sy'n Gysylltiedig â Phlant?

Byddwch, rydych yn dal i dalu cyfraniadau ar unrhyw dâl 'statudol' neu 'gytundebol' a gewch yn ystod eich cyfnod o Absenoldeb sy'n Gysylltiedig â Phlant.

## A yw bod ar Absenoldeb sy'n Gysylltiedig â Phlant yn effeithio ar fy muddion pensiwn?

Er mwyn deall yr effaith ar eich buddion pensiwn bydd angen i chi ddeall eich hawliau tâl ac absenoldeb. Dylech wirio hyn gyda'ch Cyflogwr.

## Cyfnodau Absenoldeb Cyffredin ac Ychwanegol

Ar gyfer cyfnodau o Absenoldeb Cyffredin (y 26 wythnos gyntaf fel arfer) neu unrhyw gyfnod o Absenoldeb Ychwanegol (fel arfer ar ôl wythnos 26 hyd at wythnos 39) mae eich buddion pensiwn yn seiliedig ar Gyflog Pensiynadwy Tybiedig (CPT) a gyfrifir gan eich Cyflogwr. Mae'r CPT hwn yn seiliedig ar gyfartaledd o'r tâl pensiynadwy y byddwch yn ei dderbyn yn y 3 mis (neu 12 wythnos os cewch eich talu'n wythnosol) cyn y cyfnod tâl lle mae eich cyflog yn lleihau.

Trwy ddefnyddio'r ffigwr CPT yma i gyfrifo'ch buddion pensiwn, nid yw'r gostyngiad yn eich gwir gyflog yn effeithio ar eich pensiwn ac rydych yn parhau i gronni pensiwn fel petaech yn gweithio ac yn derbyn tâl.

## Cyfnodau o Absenoldeb Di-dâl Ychwanegol

Ar ôl wythnos 39 hyd at wythnos 52 mae'n bosib i chi gymryd absenoldeb ychwanegol, fodd bynnag, bydd hyn yn ddi-dâl ac felly ni ddefnyddir CPT am y cyfnod hwn ac **ni** fyddwch yn cronni buddion pensiwn awtomatig ar gyfer y cyfnod yma. Pan ddychwelwch i'r gwaith bydd gennych yr opsiwn i **brynu'n ôl** y pensiwn rydych **wedi'i golli** yn ystod y cyfnod hwn.

## Sut mae prynu pensiwn coll yn ôl?

Pan ddychwelwch i'r gwaith bydd eich cyflogwr yn darparu'r manylion 'tâl pensiynadwy coll' sydd eu hangen arnoch i gyfrifo faint y bydd yn ei gostio i brynu'r pensiwn coll hwn yn ôl. Caiff pensiwn ei brynu'n ôl drwy ymrwymo i gontract **Cyfraniad Pensiwn Ychwanegol** (CPY).

Bydd eich Cyflogwr yn darparu'r ffigwr **tâl pensiynadwy coll** i chi. Byddwch ei angen wrth ddefnyddio'r **Cyfrifiannell CPY** ar-lein i gyfrifo'r gost o brynu'ch pensiwn coll yn ôl:

https://www.lgpsmember.org/more/apc/lost.php

Os gwnewch etholiad i brynu'n ôl y pensiwn coll o fewn **30 diwrnod** o ddychwelyd i'r gwaith (neu unrhyw gyfnod hirach y mae'ch Cyflogwr yn ei ganiatáu), bydd y gost o brynu'r pensiwn yn ôl yn cael ei rhannu rhyngoch chi a'ch Cyflogwr; 1/3 i chi a 2/3 i'ch Cyflogwr. (I gael rhagor o fanylion am eich Cyflogwr yn ymestyn y ffenestr 30 diwrnod hon, cysylltwch â'ch Cyflogwr).

Mae gennych yr opsiwn i brynu pensiwn coll yn ôl fel taliad lwmp swm unwaith (wedi'i dynnu o'ch cyflog) neu'n fisol dros isafswm o **12 mis**. Os ydych yn dymuno talu'n fisol, mae'n bosib y bydd angen i chi gael **archwiliad meddygol** gan Ymarferydd Meddygol Cofrestredig (ar eich cost chi) i gadarnhau eich bod mewn iechyd rhesymol dda.
Os, ar ôl cyfrifo'r gost, eich bod yn penderfynu prynu'r pensiwn coll yn ôl, argraffwch y **Ffurflen Gais** ar-lein a dychwelyd copi i'ch Cyflogwr. Bydd eich Cyflogwr yn trefnu bod y cyfraniadau'n cael eu didynnu o'ch cyflog a bydd yn anfon copi o'r ffurflen i'ch Cronfa Bensiwn.

Os penderfynwch beidio prynu eich pensiwn coll yn ôl, bydd y pensiwn a gronnwyd yn ystod Blwyddyn y Cynllun (1 Ebrill i 31 Mawrth) lle mae eich cyfnod o absenoldeb yn disgyn, yn llai o ganlyniad, sy'n golygu y bydd y pensiwn sy'n daladwy ar eich ymddeoliad yn llai. Efallai y bydd hefyd yn cael effaith ar y dyddiad y cewch ymddeol a derbyn taliad buddion heb ei leihau cyn eich Oedran Pensiwn Arferol (OPA).

## Beth os ydw i'n talu cyfraniadau ychwanegol?

Bydd unrhyw **Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol** (CGY) rydych yn eu talu yn parhau i gael eu tynnu o'ch tâl yn ystod eich cyfnod o absenoldeb, ar yr amod eich bod yn derbyn digon o dâl i dalu eich cyfraniad. Fodd bynnag, os ydych yn talu tuag at CGY ar gyfer yswiriant bywyd ychwanegol, bydd rhaid i chi wneud eich trefniadau eich hun i barhau i dalu'r cyfraniadau ychwanegol yn ystod eich absenoldeb i sicrhau nad yw'ch yswiriant yn darfod. Os ydych chi'n talu Cyfraniadau Rheolaidd Ychwanegol (CRhY) neu Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) tuag at brynu pensiwn ychwanegol, neu os ydych chi'n prynu

**Blynyddoedd Ychwanegol**, mae'n rhaid i chi barhau i dalu'r cyfraniadau yn ystod eich cyfnod o absenoldeb, neu bydd eich contract yn terfynu.

## Beth am ddyddiau Cadw mewn Cysylltiad (CMC)?

Mae dyddiau **Cadw mewn Cysylltiad** (CMC) fel arfer ar gael yn ystod cyfnod o absenoldeb sy'n gysylltiedig â phlant. Mae hyn yn caniatáu i chi wneud hyd at **10 diwrnod** o waith a chael eich talu. Mae unrhyw dâl rydych yn ei dderbyn am weithio diwrnod CMC yn cael ei drin yn bensiynadwy. Cysylltwch â'ch Cyflogwr am fwy o wybodaeth ar y mater hwn.

## Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn.

## Ymwadiad

Nid yw'r Gronfa Bensiwn yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y ffeithlen hon, efallai yr hoffech gael cyngor ariannol annibynnol er mwyn gwneud penderfyniad deallus.

Gallai'r cyrff hyn eich helpu chi:

Unbiased: https://unbiased.co.uk/ Gwasanaeth Cyngor Arian:
https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/choosing-a-financialadviserCPT